Cofnodion Cyngor nos Iau Tachwedd 4 2021 am 7pm
Presennol: L.Roberts, E.R.Noble, C.Brewer, T.W.Jones,C.L.Price, M.L.Hughes, M.Skerrett.
Ymddiheuriadau. M.Chapman
Diolchodd M.Skerrett am y geiriau caredig anfonwyd at Lona ac yntau wedi marwolaeth ei Dad.

Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 7.10.21, cynnig C.L.Price, cefnogi L.Roberts.

Heddlu. Dim i'w adrodd.

Yr A470. Cadarnhaodd L.Roberts ei bod wedi trefnu cyfarfod yn y pentref gyda I.Tegid ar gyfer Tachwedd 10, cyfarfod ar y Sgwar am 10am.

Cyngor Sir. Dywedodd L.Roberts ei bod yn debygol mai ym mis Ionawr/Chwefror y flwyddyn nesaf y bydd y 'lanterni' newydd ar y polion trydan hyd yr A470.

Llwybrau. Clerc wedi cysylltu â Ioan Davies, deallwyd fod Allt Cyfyng yn cael sylw o'r diwedd.

Yr Orsaf. Dim i'w adrodd.

Pontydd yn yr Ardal. Mae L.Roberts yn parhau i gynnal cyfarfodydd rhithiol wythnosol gyda B.Shiland o CBSC i drafod Pont Sarn Ddu sydd yn ffordd effeithiol iawn o gadw'r mater yn uchel o ran cael sylw a gwaith wedi'i gwblhau. Cyfarfod wedi'i drefnu ar Bont Sarn Ddu gyda G.Parry ar Tachwedd 11.

Cynlluniau.
Llys y Gwynt: Dim i'w adrodd.
9 Castle Terrace: Dim i'w adrodd.
Aber: Dim i'w adrodd.

Llifogydd. Mae'n debygol y bydd gwaith yn cychwyn ym mis Mawrth 2022.

Scottish Power. Liz Roberts wedi cyfarfod â K.Jones o CBSC yn ystod yr wythnos, mae problem gyda cael cynrychiolwyr Scottish Power i gyfarfod yn y pentref.

NRW. Dim i'w adrodd.

Terfyn gyrru 20mya. Atebiad gan Dylan Jones CBSC yn cadarnhau fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ostwng cyflymder cenedlaethol o fewn ardaloedd o 30myw i 20mya drwy Gymru gyfan ond nid yw'n debyg y bydd hyn yn cael ei gwblhau hyd canol 2023. Yn y bôn yr Heddlu sydd â chyfrifoldeb ym materion goryrru. Clerc i gael gair ag ef i gadarnhau consyrn y Cyngor.

Dosbarthu'r Post. Atebiad gan y Cyng A.Wynne yn cadarnhau y gwnaiff godi cwynion y Cyngor lleol yn ei drafodaethau gyda'r grwp sy'n cwyno dan arweiniad Liz Saville Roberts AS. Mae'r grwp yn gweithio a chwyno ar ran ardaloedd eang.

Drych ar y Bont. Clerc heb gael ymateb ac wedi cysylltu eto i ddweud ei fod wedi torri.

Coeden Nadolig. Cadarnhaodd L.Roberts fod CBSC wedi cytuno i wneud gwaith diogelwch gyda'r gwifrau ac yn y maes parcio a hefyd gosod cabinet newydd fydd yn llawer mwy hwylus a diogel gyda goleuadau'r goeden. Dylai'r gwaith yma gael ei gwblhau cyn diwedd Tachwedd. Mae Scottish Power yn mynd i osod bocs meter newydd ar y polyn ac mae Liz yn bwriadu gofyn

iddynt dalu am hyn yng ngwyneb yr holl anghyfleustra maent wedi'i greu yn yr ardal dros y 2 flynedd ddiwethaf.
Derbyniwyd llythyr ar ran y rhai sy'n trefnu'r noson goleuo'r Goeden Nadolig ar Sgwar y pentref yn gofyn a oedd hi'n bosibl gael cyfraniad at gostau'r digwyddiad. Cytunwyd ar gynnig M.Skerrett gyda L.Roberts yn cefnogi i gyflwyno £100 iddynt.

Toiledau. Holwyd tybed oedd goriadau ar gael i'r Cyngor? Cadarnhaodd L.Roberts ei bod yn ceisio trefnu cyfarfod gyda Steve neu drefniant Zoom - cyfle i ofyn am y goriadau i'r adeilad.

Y Gofgolofn. Cytunwyd fod y tir yn edrych yn arbennig iawn a diolchwyd i bawb o'r Aelodau fu yn cynorthwyo, erbyn hyn mae Bruce wedi ail osod y paneli ac maent yn edrych yn dda iawn. Cadarnhaodd C.Brewer fod £425 yn weddill o'r canran osodwyd ar gyfer y gwaith ar y tir, ar gynnig M.Skerrett gyda T.W.Jones yn cefnogi a pawb o blaid cytunwyd i glustnodi'r swm yma ar gyfer gwaith yn y Gofgolofn y flwyddyn nesaf. Dywedodd E.Noble fod caniatad i dorri brigau'r goeden yn y Ddôl ger wal y Gofgolofn. Mae Eurwyn Roberts wedi cytuno i ail adeiladu'r wal ger y giat i'r Ddôl, bydd yn trefnu i gael cerrig ar gyfer y gwaith. Hyderir y bydd Iwan Davies wedi atgyweirio'r ffens 'cast' erbyn Sul y Cofio. Derbyniwyd llythyr gan S.Hewitt yn cynnig paratoi plac yn cynnwys enwau tri o filwyr o'r ardal fu farw o ganlyniad i'r rhyfel ond nad oedd eu henwau ar y Gofeb, buasai'n talu am y plac ac yn gobeithio y buasai'n cael gosod y plac ar un o'r meinciau yn nhir y Gofeb. Cytunwyd a'i gais. Clerc i gysylltu ag Ian Connolly ynglŷn â mainc a plac teulu Minafon.

Y Fynwent. Clerc i drafod torri'r goeden yn y fynwent â Dylan. Bu L.Roberts, C.Brewer a'r Clerc mewn cyfarfod â S.Teale yn y fynwent, cafwyd cyfarfod adeiladol iawn gyda Steve yn cadarnhau y buasai yn trefnu i weithwyr CBSC ddod i gael golwg ar yr hyn oedd angen ei glirio ger y Cwt Hers a gwneud y gwaith clirio. Hefyd roedd yn dweud y buasai'n edrych i mewn i'r posibilrwydd o gael grant ariannol tuag at unrhyw waith gyda'r Gladdgell Plant a gwaith ar Cwt Hers. Mae Liz yn trafod 'prosiect' posibl ar gyfer y fynwent gyda Haf Jones ac Eirian Jones CBSC. Clerc wedi cael gair gyda gŵr o Flaenau Ffestiniog ynglŷn â darganfod lleoliad y Gladdgell, mae'n brysur ar hyn o bryd ond fe wnaiff gysylltu a'r Clerc eto.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig L.Roberts, cefnogi M.Skerrett a pawb o blaid.

Gorsaf Roman. Deallwyd fod y sefyllfa wedi gwella'n arw yn yr Orsaf ac ar y ffordd gerllaw.

Gwefan y Cyngor. Cynigodd C.Brewer gyda T.W.Jones yn cefnogi a pawb o blaid y dylid trafod hyn yn fanwl yn y cyfarfod nesaf.

Cyfarfod nesaf: Cytunwyd y dylid cyfarfod nesaf yn y Pafiliwn nos Iau Rhagfyr 2 am 7pm